# Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

**2015 dccc 3**

*Strategaethau lleol*

**5 Dyletswydd i baratoi strategaethau lleol**

(1) Rhaid i awdurdod lleol, a Bwrdd Iechyd Lleol y mae unrhyw ran o'i ardal o fewn ardal yr awdurdod lleol, baratoi, ar y cyd, strategaeth ("strategaeth leol") ar gyfer ardal yr awdurdod lleol.

(2) Rhaid i strategaeth leol—

(a) pennu amcanion y byddant, os cânt eu cyflawni, ym marn yr awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol, yn cyfrannu at ymgyrraedd at ddiben y Ddeddf hon;

(b) pennu o fewn pa gyfnodau y bydd yr awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol yn bwriadu cyflawni'r amcanion a bennir;

(c) dynodi'r camau y mae'r awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol yn bwriadu eu cymryd er mwyn cyflawni'r amcanion a bennir.

(3) Caiff awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Lleol bennu amcanion sy'n ymwneud ag ardal gyfan yr awdurdod, neu unrhyw ran ohoni.

(4) Caiff strategaeth leol hefyd gynnwys darpariaeth yn ymwneud â chamau gweithredu penodol y bydd yr awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol yn disgwyl i'r canlynol eu cymryd mewn perthynas ag ardal yr awdurdod lleol—

(a) unrhyw awdurdod cyhoeddus sydd â swyddogaethau y mae modd iddynt gyfrannu at ymgyrraedd at ddiben y Ddeddf hon, neu

(b) unrhyw gorff gwirfoddol neu berson arall y mae modd i'w weithgareddau gyfrannu at ymgyrraedd at y diben hwnnw.

(5) Ond mae'n ofynnol cael caniatâd y corff neu'r person o dan sylw cyn cynnwys mewn strategaeth leol unrhyw ddarpariaeth sy'n ymwneud â chamau gweithredu a grybwyllir yn is-adran (4).

**[**[F1](5A) Caniateir cyhoeddi strategaeth leol neu strategaeth ddiwygiedig drwy ei chynnwys o fewn cynllun llesiant lleol a gyhoeddir o dan adran 39 neu **[**[F2], 44(5) neu 47(6) neu (11)**]** o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2) gan fwrdd gwasanaethau cyhoeddus y mae'r awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol ill dau yn aelodau ohono.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F1** A. 5(5A) wedi ei fewnosod (1.4.2016) gan Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (anaw 2), a. 56(2), **Atod. 4 para. 35**; O.S. 2016/86, ergl. 3

**F2** Geiriau yn a. 5(5A) wedi eu hamnewid (20.3.2021) gan Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (asc 1), a. 175(3)(q), **Atod. 14 para. 9**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 5 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 25(3)**

**I2** A. 5 mewn grym ar 4.1.2016 gan O.S. 2015/2019, **ergl. 2(a)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, Adran 5.